Gwirfoddoli yng Nghemlyn

Beth mae gwirfoddoli yn ei olygu

Mae amryw o dasgau i'w cyflawni, ond o fis Mai hyd at Awst y dasg fwyaf defnyddiol yw gynorthwyo'r wardeiniaid hâf hefo'i gwaith – innau ar safle gwylio'r gwenoliaid ar y Crib graeanog, ar y meysydd parcio, neu rhywle arall ar y warchodfa.

Nid oes rhaid i chwi fod yn wyliwr adar profiadol nac yn naturiaethwr (er hynny buasai unrhyw brofiad neu ddiddordeb yn werthfawr) – y peth pwysicaf yw mwynhau yr awyr agored a bod yn barod i sgwrsio â phobl.

Rhai o'r tasgau ar y safle:

- Cadw llygaid ar nythfa'r gwenoliaid (e.e. nodi beth sy'n rheibio adar a'r wyau)
- Ateb cwestiynau
- Dosbarthu taflenni a rhoi gwybodaeth
- Cynnig i bobl edrych drwy delesgop YNGC
- Atal cyffro gan y bobl (gofalu nad yw neb yn mynd dros y grib)
- Cadw cyfrif o'r ymwelwyr
- Helpu gyda'r teithiau tywys, (ar Sadwrn a Sul mis Mehefin a Gorffennaf)
- Gwaith monitor wenoliaid (e.e astudiaethau ar sut y maen't yn bwydo a recordio'r pysgod sy'n cael ei dwyn i'r cywion.

Bydd staff yr YNGC yn hyfforddi'r gwirfoddolwyr yn ôl eu hangen. Hefyd bydd côt glaw gyda logo ar gael i'r gwardeiniaid gwirfoddol.

Pa gwestiynau a ofynnir gan yr ymwelwyr?

- Pa fath o adar sy'n nythu yma?
- A ydynt yn llwyddo eleni? (nifer y nythod)
- A fedrwch ddweud y gwahaniaeth rhwng yr adar? (Mae taflen arbennig gan YNGC ar gyfer adnabod y gwahanol wenoliaid)
- Beth yw hanes yr adeilad rhyfedd ym mhen draw y lagŵn?

Fe gewch wybodaeth am yr uchod gan y wardeiniaid. Os ydych yn dod o Sir Fôn hwyrach y gallwch ateb cwestiynau cyffredinol am yr Ynys. Fe fydd yn fonws os medrwch siaraid cymraeg ond nid yw hyn yn angenrheidiol.

Beth ddylech ddod efo chi?

Dillad addas sy'n dal dŵr – mae Cemlyn yn medru bob yn le gwyntog ac fe all deimlo'n oer iawn hyd yn oed yn yr haf…… Ysbienddrych os yn bosibl (efallai y bydd yma rhai yw benthyg), llyfr nodiadau gyda rhywbeth i ysgrifennu.

Am ba hyd a pha bryd gallwch wirfoddoli

Mae fyny i chi yn llwyr. Fe allech ddod â bwyd ac aros drwy'r dydd, neu dim ond am awr neu ddwy ar y tro – fe fydd y ddau yn fuddiol iawn. Os yn bosibl, gadewch i YNGC wybod ymlaen llaw y dyddiad a'r amser (er mwyn trefnu amser rhydd y gwardeiniaid). Os na fedrwch fod yn hollol sicr, cadwch mewn cysylltiad, yna fe fedrwn eich galw yn nes at yr amser i wybod os y byddwch yn rhydd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Sam Bryan
Swyddog Gwirfoddoli ac Cyfathrebu
Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru
376 Stryd Fawr
Bangor
LL57 3EW
nwwt@wildlifetrustswales.org

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government
YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
CAM+ Cynllun Arbrofol Môn A Sustainable Development Fund for Anglesey